Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# CYNRYCHIOLAETHAU A WNAED MEWN PERTHYNAS AG ARGYMHELLION DROS DRO AR GYFER SIROEDD CADWEDIG GWENT A MORGANNWG GANOL

## Crynodeb Cynrychiolaethau

**Mai 2004**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas ag argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer Siroedd Cadwedig Gwent a Morgannwg Ganol a gyhoeddwyd 5 Ionawr 2004**

---

## CYMERADWYAETH

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Gan nad oes cynigion i newid ffiniau Torfaen, bydd yr argymhellion arfaethedig yn cael eu cefnogi gan y cyngor. |
| 2 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | Cefnogi cynnwys Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni o fewn Bro Morgannwg. |
| 3 | Plaid Geidwadol Cymru | Cefnogi cynigion ar gyfer Gwent/Morgannwg Ganol. |
| 4 | Llafur Cymru | Cefnogi'n llawn yr argymhellion dros dro ar bob agwedd. |
| 5 | Plaid Geidwadol –cangen De Ddwyrain Cymru | Croesawu'r cynigion ar gyfer Gwent/Morgannwg Ganol. Yn hynod falch na fydd unrhyw newidiadau i etholaethau Dwyrain Casnewydd, Gorllewin Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. |
| 6 | Plaid Lafur Blaenafon | Cefnogi cynigion i gynnwys Ward Blaenafon o fewn Cyngor Bwrdeistref Torfaen am resymau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. |
| 7 | Cymdeithas Geidwadol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymeradwyo cynigion ar gyfer etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr am resymau daearyddol a rhesymegol ac oherwydd eu bod er budd yr etholaeth. |
| 8 | Cymdeithas Geidwadol Caerffili | Cefnogi'r cynigion i gyfuno Siroedd Cadwedig Gwent a Morgannwg Ganol a nifer yr etholaethau. Cymeradwyo Cynigion ar gyfer Caerffili, Merthyr Tudful, Rhymni, Dwyrain a Gorllewin Casnewydd, Rhondda a Thorfaen. |
| 9 | Plaid Lafur De Caerdydd a Phenarth | Cefnogi'r cynigion ar gyfer De Morgannwg yn eang. Cymeradwyo cynnwys Pentyrch a Chreigiau/Sain Ffagan yng Ngorllewin Caerdydd a Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni yn etholaeth Bro Morgannwg. |
| 10 | Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Caerdydd | Cymeradwyo cynnig i gynnwys ardaloedd etholiadol Creigiau/ Sain Ffagan a Phentyrch yn etholaeth Gorllewin Caerdydd. |
| 11 | Plaid Lafur Etholaeth Cwm Cynon | Cefnogi argymhellion cyffredinol. Hefyd yn cefnogi cynnig i gynnwys Cilfynydd a Glyncoch yn etholaeth Cwm Cynon. |
| 12 | Plaid Lafur Etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni | Cymeradwyo argymhellion mewn perthynas ag Etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni. |
| 13 | Plaid Lafur Etholaeth Sir Fynwy | Plaid Lafur Etholaeth Sir Fynwy yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Sir Fynwy. |
| 14 | Plaid Lafur Etholaeth | Mae Plaid Lafur Etholaeth Casnewydd yn cefnogi'r argymhellion |

| | | |
|---|---|---|
| | Dwyrain Casnewydd | ar gyfer Dwyrain Casnewydd. |
| 15 | Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Casnewydd | Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Casnewydd yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Gorllewin Casnewydd. |
| 16 | Plaid Lafur Etholaeth Torfaen | Plaid Lafur Etholaeth Torfaen yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Torfaen. |
| 17 | Mr Huw Edwards AS | Cefnogi'r cynigion i gadw'r sefyllfa bresennol yn Sir Fynwy. |
| 18 | Mr Paul Flynn AS | Dymunai Mr Flynn gofnodi ei gefnogaeth i'r cynigion. |
| 19 | Mr Dai Havard AS | Yn cefnogi argymhellion dros dro mewn perthynas â Gwent a Morgannwg Ganol. |
| 20 | Y Gwir Anrhydeddus Alan Howarth CBE AS | Mae Mr Howarth yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer etholaeth Dwyrain Casnewydd. |
| 21 | Y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS | Yn cymeradwyo cynigion ar gyfer Gwent, yn enwedig cadw ffiniau presennol Torfaen, sy'n parchu cysylltiadau lleol. |
| 22 | Mr Leighton Andrews AC | Yn cefnogi argymhellion y Comisiwn mewn perthynas â'r Rhondda. |
| 23 | Ms Lorraine Barrett AC | Yn ystyried bod yn rhaid i Bentyrch a Chreigiau/Sain Ffagan gael eu cynnwys yng Ngorllewin Caerdydd a Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni yn etholaeth Bro Morgannwg. |
| 24 | Ms Christine Chapman AC | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer etholaeth Cwm Cynon. |
| 25 | Mr John Griffiths AC | Mae Mr Griffiths yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Dwyrain Casnewydd. |
| 26 | Mr Huw Lewis AC | Cytuno ag argymhellion dros dro y Comisiwn yn enwedig o ran etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni. |
| 27 | Ms Lynne Neagle AC | Cytuno ag argymhellion dros dro y Comisiwn yn enwedig o ran etholaeth Islwyn. |
| 28 | Cyngh Jeff Jones | Cefnogi'n llawn y cynigion ar gyfer etholaethau Pen-y-bont ac Ogwr am resymau rhesymeg ac i atal datblygiad pellach ym Mhen-y-bont sy'n creu anghydbwysedd yn nifer yr etholwyr. |
| 29 | Mr John S Coduri | Cefnogi cynigion mewn perthynas â Phontypridd. |

## GWRTHWYNEBIAD

| | | |
|---|---|---|
| 30 | Cyngor Cymuned Cefn Cribwr | Gwrthwynebu'n chwyrn am y gallai cysylltiadau hanesyddol â gweddill Etholaeth Pen-y-bont gael eu dinistrio petai'r cynigion yn dwyn ffrwyth. |
| 31 | Cyngor Cymuned | Deiseb wedi'i llofnodi gan 372 o bobl yn gwrthwynebu trosglwyddo |

| | | |
|---|---|---|
| | Cefn Cribwr | Cefn Cribwr i etholaeth Ogwr am resymau cymdeithasol, gwleidyddol ac ymarferol. |
| 32 | Cyngor Cymuned Trelales | Gyda pherthynas hir o gydweithio agos rhwng Cynghorau Cymuned Trelales a Chefn Cribwr, teimlir ei bod hi'n briodol y byddai'r berthynas yn cael ei gwasanaethu orau gyda Chefn Cribwr yn aros o fewn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 33 | Cyngor Tref Pontypridd | Yn gwrthwynebu'n gryf y cynigion i symud Cilfynydd a Glyncoch o Bontypridd i etholaeth Cwm Cynon am resymau daearyddol a chymunedol. |
| 34 | Cyngor Cymuned y Pîl | Yn gwrthwynebu symud Cefn Cribwr o Etholaeth Pen-y-bont gan y byddai hyn yn torri'r cyswllt hanesyddol rhyngddo â Chymuned y Pîl. |
| 35 | Cangen Bryntirion y Blaid Lafur | Yn gwrthwynebu Cefn Cribwr yn dod yn rhan o etholaeth Ogwr am resymau cymdeithasol a hanesyddol. Am iddo aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr. |
| 36 | Plaid Lafur Cefn Cribwr | Gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Cefn Cribwr ar sail cymuned a hygyrchedd cynrychiolwyr etholedig. |
| 37 | Plaid Cymru - Cangen Cynffig | Gwrthwynebu argymhellion sy'n effeithio ar bentref Cefn Cribwr am resymau cymdeithasol a daearyddol. Mae'r gymuned yn tueddu mwy tuag at gymunedau Mynydd Cynffig a'r Pîl. Am i Gefn Cribwr aros yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 38 | Cangen Ewenni a'r Fro o'r Blaid Lafur | Gwrthwynebu trosglwyddo Ewenni, Y Wig a Saint-y-brid o Ben-y-bont ar Ogwr i Fro Morgannwg at resymau hanesyddol, diwylliannol, daearyddol a chymunedol. Awgrymu dewis arall lle mae Penarth yn symud i'r Fro a rhannau o Orllewin y Fro yn symud i Ben-y-bont ar Ogwr. |
| 39 | PLE Pontypridd | Gwrthwynebu'r cynigion sy'n effeithio'n benodol ar Gilfynydd, Glyncoch, Creigiau, Pentyrch a Gwaelod y Garth. |
| 40 | Sefydliad y Merched Cefn Cribwr | Mae Sefydliad y Merched Cefn Cribwr yn gwrthwynebu'r cynigion i drosglwyddo Cefn Cribwr o Ben-y-bont ar Ogwr i etholaeth Ogwr am resymau hanesyddol, daearyddol, cymdeithasol ac ymarferol. |
| 41 | Mr Win Griffiths AS | Gwrthwynebu'r cynigion mewn perthynas â Chefn Cribwr ar sail y gymuned ac y dylai barn gyhoeddus gael ei brofi cyn symud ymlaen. |
| 42 | Dr Kim Howells AS | Gwrthwynebu ar y sail bod cysylltiadau cymunedol ac economaidd Cilfynydd a Glyncoch gyda Phontypridd ac nid gyda threfi lleol eraill yng Nghwm Cynon. |
| 43 | Dr Kim Howells AS | Eto mae Dr Howells yn gwrthwynebu'n gryf y cynigion o ran Cilfynydd a Glyncoch oherwydd cryfder y cysylltiadau â Phontypridd. Mewn cefnogaeth, amgaeodd 325 copi o lythyrau a dderbyniodd gan drigolion yn ddiweddar yn gwrthwynebu'r cynigion. |

| | | |
|---|---|---|
| 44 | Ms Jane Davidson AC | Gwrthwynebu cynigion ar gyfer Glyncoch a Chilfynydd ar sail cysylltiadau lleol a hanesyddol. Amgaeodd ddeisebau gyda 499 o lofnodion. |
| 45 | Ms Jane Hutt AC | Mae ganddi amheuon o ran symud Saint-y-brid i mewn i etholaeth Bro Morgannwg. |
| 46 | Mr Carwyn Jones AC | Mae Mr Jones yn gwrthwynebu'r cynigion o ran Cefn Cribwr ac Abercynffig gan eu bod yn golygu torri cysylltiadau lleol. Mae'n credu y dylid ystyried hefyd sefyllfa Pen-y-fai, Coety a Llangrallo. |
| 47 | Cyngh. H A Andrews | Mae'n gwrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo ardaloedd etholiadol Bargoed a Gilfach o Gaerffili i Islwyn. Cynnwys deiseb wedi'i llofnodi gan 160 o drigolion lleol. |
| 48 | Cyngh. Steve Belzak | Mae'r Cyngh Belzak, Cynghorydd Ward Cilfynydd, wedi cyflwyno deiseb wedi'i llofnodi gan 71 o drigolion yn gwrthwynebu'r cynigion i drosglwyddo Cilfynydd i etholaeth Cwm Cynon. |
| 49 | Cyngh. Edith M Hughes MSc BSc | Yn gwrthwynebu trosglwyddo Cefn Cribwr ar sail cysylltiadau hanesyddol ac ymdeimlad o gymuned. |
| 50 | Mr a Mrs Gaynor a Keith Bennett | Gwrthwynebu Cilfynydd yn ymuno ag etholaeth Cwm Cynon am resymau hanesyddol, daearyddol ac ymarferol. Awgrymu bod Edwardsville, Trelewis neu Nelson yn ardaloedd mwy addas i symud iddynt. Eisiau aros ym Mhontypridd. |
| 51 | Dr E A Bowers | Gwrthwynebu trosglwyddo Saint-y-brid o Ben-y-bont ar Ogwr i Fro Morgannwg am resymau daearyddol a diwylliannol. Byddai'n well cynnwys Mynydd Cynffig a'r Pîl o fewn Aberafan, yn sgil cysylltiadau hirsefydlog. |
| 52 | Mr Kevin George Burnell | Gwrthwynebu argymhellion sy'n effeithio ar bentref Cefn Cribwr am resymau cymdeithasol a daearyddol. Nodi bod cymuned yn tueddu mwy tuag at gymunedau Mynydd Cynffig a'r Pîl. Am i Gefn Cribwr aros yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 53 | Ms Edna A David | Gwrthwynebu trosglwyddo Cefn Cribwr i etholaeth Ogwr am resymau cymdeithasol a hanesyddol ac er budd y gymuned. |
| 54 | Mr Graham Davies | Deiseb gyda 162 o enwau yn gwrthwynebu'r cynigion i symud Cilfynydd a Glyncoch i etholaeth Cwm Cynon am resymau daearyddol, hanesyddol, diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a rhesymau gweinyddol ac oherwydd cryfder cysylltiadau'r gymuned â Phontypridd. |
| 55 | Ms Ceri Griffiths | Gwrthwynebu'r argymhelliad dros dro i symud Cefn Cribwr allan o Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 56 | Mrs Muriel Gulliford YH | Gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Cilfynydd a Glyncoch ar sail cysylltiadau hanesyddol ac ymdeimlad o gymuned. |
| 57 | Mr a Mrs M a D Jones | Gwrthwynebu'r cynnig i symud Cilfynydd am resymau cymdeithasol, gwleidyddol a hanesyddol. Am iddo aros yn etholaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pontypridd. |
| 58 | Mr Lee Mainwaring ACMA MBA | Poeni ynghylch y newid i ffin Etholaeth Pontypridd i gynnwys Cilfynydd yn ardal Aberdâr. |
| 59 | Mrs Dianne Mears | Gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Cilfynydd a Glyncoch gan y byddai'n effeithio ar gysylltiadau cymunedol. |
| 60 | Mrs V R Pole | Gwrthwynebu trosglwyddo Cefn Cribwr o Ben-y-bont i Ogwr am resymau cymdeithasol, gwleidyddol, daearyddol, diwylliannol ac ymarferol. Dadlau bod Pen-y-Fai neu Langrallo yn well ymgeiswyr i'w trosglwyddo. |

## CYMERADWYAETH RANNOL/GWRTHWYNEBIAD RHANNOL

| | | |
|---|---|---|
| 61 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Gwrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo Cefn Cribwr i etholaeth Ogwr am resymau a diddordebau hanesyddol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol y gymuned. Cymeradwyo cynigion eraill ar gyfer Pen-y-bont/Ogwr. |
| 62 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Nid oes gan y Cyngor unrhyw sylw i wneud ar gynnwys Pentyrch etc yng Ngorllewin Caerdydd. Fodd bynnag, mae'n gwrthwynebu'r cynigion i drosglwyddo Cilfynydd a Glyncoch i etholaeth Cwm Cynon. |
| 63 | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dadlau bod y cynigion yn torri Rheol 7(b) Rheolau Ailddosbarthu Seddau mewn perthynas â chysylltiadau lleol. Tynnu sylw at gysylltiad cryf rhwng Cilfynydd, Glyncoch a Phontypridd. Cefnogi cynigion ar gyfer Cefn Cribwr ac Abercynffig. |
| 64 | PLE Islwyn | Gwrthwynebu cynigion ar gyfer Bargoed a Gilfach am resymau daearyddol a hanesyddol. Am iddynt barhau yn etholaeth Caerffili. Dadlau y byddai wedi bod yn well symud Aberbargoed a Maesycwmer oherwydd eu cysylltiadau agos ag Islwyn. |
| 65 | Mr Wayne David AS | Mynegi pryder dros y cynigion ar gyfer Gilfach a Bargoed. |
| 66 | Mr Don Touhig AS | Gwrthwynebu cynigion ar gyfer Bargoed a Gilfach ond yn derbyn Aberbargoed. Awgrymu symud Maesycwmer i Islwyn. Mae ganddo gefnogaeth Wayne David AS. |
| 67 | Mr Jeff Cuthbert AC | Cynnig symud Cymunedau Aberbargoed a Maesycwmer i Islwyn gan fod hyn yn parchu cysylltiadau lleol yn well na'r argymhellion dros dro tra'n gwella'r cydbwysedd etholaethol ar yr un pryd. |
| 68 | Ms Irene James AC | Cefnogi nifer arfaethedig y seddau a glustnodir i Dde Ddwyrain Cymru ond yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i ffin Islwyn a Chaerffili gan fod Afon Rhymni'n darparu ffin naturiol, ymarferol. Awgrymu trosglwyddo Aberbargoed a Maesycwmer i Islwyn. |
| 69 | Mr D Fox | Am i etholaethau ddilyn Llinellau ALl e.e. Pen-y-bont ar Ogwr: Pen-y-bont ar Ogwr, etholaethau Maesteg RhCT: Rhondda, Cynon, |

Pontypridd a Llantrisant (NEWYDD) Merthyr: Merthyr Tudful. Caerffili: Caerffili ac Islwyn. Cymeradwyo Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy.

## ARALL

| | | |
|---|---|---|
| 70 | Cyngor Cymuned Pont-y-clun | Am fynd i'r afael ag anomaledd Ynysddu. Ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth Ogwr ond mae'n rhan annatod o Bont-y-clun a dylai felly fod yn etholaeth Pontypridd fel gweddill Pont-y-clun. Pwysleisio cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol i Bont-y-clun. |

Mae'r prif wrthwynebiadau i'r argymhellion dros dro mewn perthynas â throsglwyddo ardaloedd etholiadol Cefn Cribwr ac Abercynffig o Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr i Etholaeth Ogwr, trosglwyddo ardaloedd etholiadol Cilfynydd a Glyncoch o etholaeth Pontypridd i etholaeth Cwm Cynon a throsglwyddo ardaloedd etholiadol Aberbargoed, Bargoed a Gilfach o etholaeth Caerffili i etholaeth Islwyn. Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion y cynrychiolaethau a wnaed o ran y materion hyn a'r cynrychiolaethau sy'n cefnogi'r argymhellion dros dro ar gyfer yr ardal hon.

| | **Cynrychiolaethau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Gwrthwynebiad –** Cefn Cribwr ac Abercynffig | 30,31 (deiseb +372 o enwau),32,34,35,36,37,40, 41,46,49,52,53,55,60,61 | 16 (+372) |
| **Gwrthwynebiad –** Cilfynydd a Glyncoch | 33,39,42,43(+293 llythyr),44(deiseb +499 o enwau),48(deiseb +71 o enwau),50,54(deiseb +162 o enwau),56,57,58, 59,62,63 | 14 (+1,025) |
| **Gwrthwynebiad -** Aberbargoed, Bargoed a Gilfach | 47(deiseb +160 o enwau),64,65,66,67,68 | 6 (+160) |
| **Cymeradwyaeth –** ar gyfer yr ardal gyfan neu ardal benodol | 1 – 29 | 29 |

Tŷ Caradog , 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew's Place, Cardiff CF10 3BE
☎ (029) 2039 5031 Fax/Ffacs (029) 2039 5250
e-mail: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk / e-bost : comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Web Site: www.bcomm-wales.gov.uk Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk